



Canllaw yn unig yw'r wybodaeth a ddarperir yn y Diweddariad Cyllid hwn. Cysylltwch â'r arianwyr yn uniongyrchol i gadarnhau cymhwysedd ar gyfer yr arian.

Drwy gydol y diweddariad hwn bydd dolenni i wefannau allanol. Er ein bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn gywir, yn gyfredol ac yn berthnasol, ni all Cyfoeth Naturiol Cymru gymryd cyfrifoldeb am dudalennau a gynhelir gan ddarparwyr allanol.

Er mwyn ein helpu i sicrhau bod y diweddariad hwn mor ddefnyddiol â phosibl, a fyddechystal â chwblhau'r arolwg byr hwn os gwelwch yn dda.

Cynnwys:

- Newyddion Cyllid Diweddaraf a Newyddion am y Sector
- Beth sy'n Newydd?
- Cyllido Torfol a Chodi Arian Ar-lein
- Elusennau, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau
- Cyllid Llywodraeth Ganolog ac Ewropeaidd
- Arian Loteri
- Adnoddau a Chymorth Defnyddiol

Cyllid Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru a Chyllid Ewropeaidd

Ymunwch â Rhwydwaith Cymunedol y TCV AM DDIM yn 2019

A hwythau'n dathlu eu pen-blwydd yn 60 yn 2019 a, diolch i haelioni chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl, mae'r TCV (Y Gwirfoddolwyr Cadwraeth) yn cynnig aelodaeth am flwyddyn am ddim i'w rhwydwaith cymunedol i'r grwpiau sy'n ymuno eleni. Mae'r aelodaeth yn cynnig gwefan gymorth benodol, yswiriant am bris cystadleuol, gostyngiadau gan gyflenwyr teclynnau, coed, hadau ac offer y TCV, gwybodaeth am gyllid, mynediad i grantiau a llawer mwy!

Cyhoeddiad newydd: Adroddiad Monitro Brexit – Yr Amgylchedd Ionawr 2019

Bydd Brexit yn arwain at newidiadau sylweddol ym maes polisiâu amgylcheddol. Mae Senedd Ymchwil wedi paratoi'r adroddiad monitro hwn ar gyfer Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad. Mae'n darparu diweddariad ar ddatblygiadau diweddar Brexit sydd o bwys i'r maes polisi amgylcheddol yng Nghymru

Grantiau Allgymorth Cymdeithas Ecolegol Prydain

Mae cyllid ar gael i'r grwpiau sy'n:

- Cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o ecoleg a nifer y bobl sy'n ymwneud ag ecoleg
- Ysgogi trafodaeth ynglŷn ag ecoleg a'i goblygiadau i gymdeithas
- Ysbrydoli a chymell pobl o bob oedran ynglŷn â gwyddor ecoleg, yn enwedig y rheiny nad oedd ganddynt diddordeb o'r blaen
- Datblygu sgiliau i drosglwyddo gwyddor ecoleg

Mae rownd gyntaf grantiau 2019 bellach AR AGOR, a rhaid gwneud cais erbyn dydd Mercher 20 Mawrth 2019.

Sefydliad Cymunedol yng Nghymru

Mae amrywiaeth o grantiau rhwng £500 a £1,000 ar gael i grwpiau cymunedol bach a ysgogir gan wirfoddolwyr mewn gwahanol rannau o Gymru y mae eu prosiectau'n bwriadu cyflawni un o'r pum canlyniad canlynol:

- Gwella cyfleoedd pobl mewn bywyd
- Datblygu cymunedau cryfach
- Gwella amgylcheddau gwledig a threfol
- Annog pobl a chymunedau iachach a mwy actif
- Diogelu treftadaeth a diwylliant

Mae gan y rhaglen ddau ddyddiad cau blynyddol: 31 Ionawr a 31 Gorffennaf.

Grantiau 'Carriers for Causes' OneStop

Mae grantiau 'Carriers for Causes' ar gael i unrhyw achos da o fewn dwy filltir i siop [One Stop <http://www.onestop.co.uk/carriersforcauses.php>](http://www.onestop.co.uk/carriersforcauses.php) Bydd grantiau gwerth hyd at £1000 ar gael i gynorthwyo prosiectau sy'n 'dwyn budd i gymunedau lleol - gan helpu i wella bywydau a llyfudd lleol'. Bydd y mathau o brosiectau a gyllidir yn eang iawn a byddant yn cwmpasu'r costau uniongyrchol sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect e.e. prynu codwyr sbwriel a bagiau ar gyfer diwrnodau glanhau yn y gymuned, planhigion, rhawiau a ffyrç i blannu gardd gymunedol, cost bws mini am daith diwrnod i grŵp cymunedol neu'r deunyddiau sydd eu hangen i baentio ystafell yn yr hosbis leol. Mae grantiau ar gael i sefydliadau a grwpiau nid er elw yn unig.

GlobalGiving

GlobalGiving yw'r gymuned gyllido torfol gyntaf a mwyaf sy'n cysylltu sefydliadau nid er elw, rhoddwyr a chwmnïau mewn mwy na 170 o wledydd. Sefydliad nid er elw ydyw sydd hefyd yn cynnig hyfforddiant a chymorth.

Total Giving

Platfform codi arian ar-lein rhad ac am ddim yw Total Giving ac mae 10,000 a mwy o elusennau yn y DU wedi cofrestru arno. Mae'r arian yn mynd yn syth ac yn uniongyrchol i'ch elusen. Does dim ffioedd cofrestru na ffioedd parhaus a gall y platfform dderbyn rhoddion mewn 137 o wahanol fathau o arian.

Virgin Money Giving

Mae Virgin Money Giving yn caniatáu i elusennau, corfforaethau, timau ac unigolion godi arian ar-lein yn hawdd ac yn effeithlon i gynorthwyo lluo o weithgareddau. Ar hyn o bryd, mae modd i elusennau ymuno am ddim.

ASDA Foundation

Mae grantiau ar gael i elusennau a sefydliadau nid er elw yn y DU ar gyfer prosiectau lleol sy'n dwyn budd i'r gymuned ehangach, yn tynnu sylw at anghenion lleol ac yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r gymuned leol.

Bernard Sunley Charitable Foundation

Mae'r sefydliad yn helpu i wella ansawdd bywydau, yn enwedig i'r rheiny sy'n ifanc, dan anfantais neu'n oedrannus. Bob blwyddyn, caiff grantiau gwerth cyfanswm o £3 miliwn eu rhoi i amrywiaeth eang o elusennau cofrestredig ledled Cymru a Lloegr (bydd y sefydliad hefyd yn cyllido sefydliadau sydd â statws 'derbyniwyd' neu 'wedi'i eithrio' megis eglwysi a grwpiau sgowtiaid). Mae pedwar categori o grantiau – cymuned, addysg, iechyd a lles cymdeithasol – a thair lefel o grantiau. Taliadau gwerth £25,000 neu fwy yw grantiau mawr. Mae

grantiau canolig rhwng £5,000 a £25,000 ac mae grantiau bach gwerth £5,000 neu lai. Mae'r sefydliad yn cynorthwyo prosiectau cyfalaf yn unig, ac nid costau gweithredu. Mae'r ymddiriedolwyr yn ffafrio prosiectau cyfalaf gwerth hyd at £5 miliwn yn fawr a chaiff grantiau eu talu fel arfer fel un taliad unigol. Ar ôl eu cwblhau, bydd disgwyl i'r prosiectau ariannu eu hunain. Dylid gwneud ceisiadau ar-lein ar y wefan – www.bernardsunley.org.

Grantiau Biodiversity Solutions

<http://biodiversitysolutions.org.uk/conservation-work/>

Menter gymdeithasol yw Biodiversity Solutions a'i gylch gwaith yw defnyddio unrhyw gyllid sy'n weddill ar gyfer prosiectau sy'n hybu gwybodaeth am faterion bywyd gwyllt yng ngorllewin Cymru neu'n cyfrannu at gadwraeth yn yr ardal. **Caiff ceisiadau eu hasesu'n rheolaidd. Awgrymir y dylid gwneud ceisiadau rhagarweiniol gan osod syniadau cyn gwneud ceisiadau manwl.**

Dylai grwpiau fod yn ymwybodol y caiff terfyn uwch y grantiau ei leihau o £25,000 i £20,000 ar ôl y dyddiad cau ar 3 Ebrill 2019, felly dyma'r cyfle olaf i grwpiau i gael y cymorth grant gwerth £25,000 sydd ei angen arnynt.

Ymddiriedolaeth YMCA Caerdydd (1910)

The Chestnut Fund – Grantiau ar gyfer cadwraeth

Mae pwyllgor The Chestnut Fund yn cyfarfod bob chwe wythnos i drafod ceisiadau newydd.

Ymddiriedolaeth Cuthbert Horn

Mae grantiau blaenorol wedi bod ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau megis gwarchod yr amgylchedd, cerddoriaeth ac iechyd meddwl. Mae'r cyllid ar ddisgresiwn yr ymddiriedolwyr. Mae'r grantiau blaenorol wedi bod gwerth rhwng £3,000 a £4,000 ar gyfer costau dibenion cyffredinol.

Ymddiriedolaeth Dulverton

Elusen annibynnol sy'n rhoi grantiau yw The Dulverton Trust ac mae'n rhoi cymorth i elusennau a sefydliadau corfforedig elusennol yn y DU fynd i'r afael ag amrywiaeth o broblemau cymdeithasol, diogelu byd natur a gwarchod crefftau treftadaeth. Mae grantiau un flwyddyn ar gael, fel arfer gwerth rhwng £25,000 a £35,000, yn ogystal â grantiau aml-flwyddyn, fel arfer ar gyfer cyfnod o ddwy i dair blynedd. Fodd bynnag, caiff grantiau aml-flwyddyn ond eu dyfarnu i elusennau sydd

eisoes wedi cael grant ganddi. Caiff ceisiadau eu derbyn drwy gydol y flwyddyn ond bydd yr ymddiriedolwyr yn penderfynu ym mis Chwefror, Mehefin a Hydref a dylid caniatáu tri i chwe mis i wneud penderfyniad.

Cronfa Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr - Dŵr Cymru

Mae'r cynllun hwn yn darparu cyfraniadau ariannol i sefydliadau nid er elw ar gyfer prosiectau a fydd yn gwella afonydd, llynnoedd a dyfrffyrdd Cymru. Y nod yw creu amgylchedd mwy bywiog ac iach i bobl a bywyd gwyllt ac i helpu i roi Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd ar waith o fewn ardal weithredu Dŵr Cymru.

Rhaid i'r ymgeiswyr wneud y canlynol:

- disgrifio sut mae eu cynigion yn ymwneud â gweithrediadau neu asedau Dŵr Cymru
- gallant ymwneud yn uniongyrchol â lleihau effeithiau gweithredu asedau neu ollyngiadau dŵr
- neu gynnwys gwaith 'i fyny'r afon' neu waith arall a allai leihau'r baich neu'r perygl y bydd angen gwelliannau yn asedau Dŵr Cymru.

Am fwy o wybodaeth, i drafod syniadau o ran prosiectau neu am ffurflen gais, e-bostiwch wfd@dwrcymru.com.

Sefydliad Esmée Fairbairn - Grantiau amgylchedd a bwyd

Sefydliad Esmée Fairbairn yw un o'r gwneuthurwyr grantiau annibynnol mwyaf yn y DU. Mae grantiau'n cefnogi costau craidd neu gostau prosiect, gan gynnwys cyflogau staff a gorbenion. Mae proses ymgeisio dau gam; yn gyntaf, gwnewch gais ar-lein (cewch gydnabyddiaeth trwy e-bost o fewn wythnos, a phenderfyniad o fewn mis), yna atebwch gwestiynau gan reolwr grantiau neu fuddsoddi cymdeithasol (penderfyniad ymhen dau i bedwar mis). Nid oes uchafswm grant. Fodd bynnag, mae'r sefydliad ond yn rhoi nifer fach o grantiau gwerth mwy na £500,000 a phrin y bydd y sefydliad yn rhoi grant o'r maint hwn neu fwy i sefydliad nad oes ganddo berthynas ag ef eisoes. Nid oes unrhyw ddyddiadau cau neu gyfyngiadau ar ail-ymgeisio.

Credwn fod pobl yn allweddol i fynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol sy'n ein hwynebu heddiw. Rydym yn cyllido sefydliadau sy'n gallu cymell, ennyn diddordeb a hysbysu pobl, yn ogystal â chysylltu â'r darlun mwy o ran creu polisïau, cyfiawnder cymdeithasol neu ansawdd bywyd. Y blaenoriaethau cyllido ar gyfer elfen yr

amgylchedd yw: Cysylltu pobl â natur a materion amgylcheddol; cadwraeth natur ar y tir ac ar y môr; gwrthsefyll effeithiau gweithgareddau dynol niweidiol a gwella dealltwriaeth o blanhigion, anifeiliaid ac organebau llai hysbys. Gwariwyd cyfanswm o £8.1m yn 2017 ar yr amgylchedd (45 o grantiau). Amrywiodd y rhain o £10k i £1.5m. Cyfartaledd hyd grant fu 32 o fisoedd. Nid oes unrhyw ddyddiadau cau neu gyfyngiadau ar ail-ymgeisio.

Credwn fod ffyrdd o gynhyrchu bwyd o ansawdd uwch sy'n well i bobl, yr amgylchedd a da byw. Rydym yn hybu cyfranogiad y gymuned mewn cynhyrchu bwyd, datblygu safbwynt polisi mwy cadarnhaol ar fwydydd a deietau cynaliadwy, a defnydd llai o blaladdwyr, chwynladdwyr, gwrthfotigau a thanwyddau ffosil niweidiol. Y blaenoriaethau cyllido yw: Arloesedd mewn dulliau amgen, bwyd a llesiant a gweithio tuag at sector bwyd mwy cydlynol. Gwariwyd cyfanswm o £3.7m yn 2017 ar yr amgylchedd (20 o grantiau). Roedd y rhain yn amrywio o £14k i £1m. Cyfartaledd hyd grant oedd 30 o fisoedd.

February Foundation

Dylid anfon ceisiadau trwy e-bost at rps@thefebruaryfoundation.org ar gyfer penderfyniadau, fel arfer o fewn 12 wythnos.

Ford Britain Trust

Bydd ceisiadau am grantiau'n cael eu hystyried ar gyfer prosiectau ym mhob cod post yn y DU, ond bydd lleoliadau ger gwaith Ford Motor Company Limited / FCE Bank plc yn y DU yn cael blaenoriaeth.

Mae dau grant ar gael:

Ewch i'r wefan i weld y dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau.

The Fore Trust

Bydd y cyfnod cofrestru ar gyfer rownd gyllido nesaf The Fore yn dechrau ar 1 Ebrill 2019.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais yw 29 Ebrill 2019

Ymddiriedolaeth Amaethyddol Frank Parkinson

Mae'r ymddiriedolwyr wedi datblygu strategaeth flaengar sydd wedi'i llywio gan ymchwil ac adroddiadau strategol sy'n mynd i'r afael â phroblemau byd-eang.

Mae'r ymddiriedolwyr yn awyddus i annog ceisiadau am gymorth ariannol gyda phrosiectau a rhaglenni sy'n nodi a lledaenu arfer gorau o ran busnes a thechnoleg er budd amaethyddiaeth ym Mhrydain.

mike.steelefpat@yahoo.com

Ymddiriedolaeth Garfield Weston

Gwneuthurwr grantiau cenedlaethol mawr yw'r sefydliad sy'n derbyn ceisiadau gan elusennau ledled y DU ac yn dyfarnu grantiau gwerth oddeutu £70m bob blwyddyn, ac mae wedi rhoi dros £1biliwn ers ei sefydlu.

Sefydliad John Ellerman

Nod y sefydliad yw hybu llesiant pobl, cymdeithas a'r byd naturiol trwy ganolbwyntio ar y celfyddydau, yr amgylchedd a gweithredu cymdeithasol. Daw cyllido amgylchedd dan ddau brif bennawd:

1. **Gwarchod y moroedd** – diogelu ac adfer yr amgylchedd morol trwy sicrhau mwy o ardaloedd gwarchoddedig a'u rheoli'n well; ymgysylltu â chymunedau arfordirol; lleihau gorbysgota a mynd i'r afael ag effeithiau niweidiol eraill gweithgareddau dynol ar y môr, megis llygredd.
2. **Creu llefydd mwy cyfoethog a chynaliadwy ar y tir** – datblygu ecosystemau iachach mewn ardaloedd trefol neu wledig, trwy reoli'r ardaloedd hyn yn well; arbrofi gyda chynefinoedd neu eu cysylltu; ymyriadau ar raddfa fawr sy'n helpu i adfer llefydd o bwys arbennig. Byddwn hefyd yn hybu gwaith i leihau neu atal effeithiau niweidiol gweithgareddau dynol, megis llygredd sŵn ac aer neu blaladdwyr.

Canolbwyntir ar y DU a dyfroedd y DU, ond bydd yr ymddiriedolaeth yn hybu gwaith ar diriogaethau tramor y DU hefyd. Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau o bwys cenedlaethol gan elusennau sydd wedi'u cofrestru yn y DU sydd ag incwm rhwng £100,000 a £10m.

Sefydliad Lloyds Bank ar gyfer Cymru a Lloegr

Rydym yn cynnig dwy raglen grant, un ar gyfer costau craidd ac un ar gyfer datblygu eich elusen. Cewch wneud cais am y naill raglen, ond nid y ddwy.

Caiff grantiau galluogi eu dyfarnu i elusennau sydd wedi nodi anghenion datblygu clir ac sy'n cynnig cyfle gwych i gryfhau elusennau i gyflawni'n fwy effeithiol.

Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Mae'n braf gan MSCT gyhoeddi cynllun grantiau untro o'r enw Cronfa Grantiau'r Celfyddydau a'r Amgylchedd a fydd yn targedu prosiectau cymunedol sy'n ymwneud â'r celfyddydau a'r amgylchedd. Mae grantiau gwerth hyd at £5,000 ar gael. Dim ond ar gyfer cyfalaf, offer, hyfforddiant a rhai elfennau o gostau cyflawni prosiect. (Ni fydd yn talu am gyflogau na threuliau cyffredinol.)

Acwariwm Morol Cenedlaethol

Yn 2019, mae'r ymddiriedolwyr yn chwilio'n benodol am brosiectau yn y DU sy'n ymwneud â realiti rhithwir a thechnolegau a rhaglenni digidol sy'n ceisio cysylltu pobl â chynefinoedd morwellt ledled y byd.

Ymddiriedolaeth Natures

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Naturesave yn 1995 i hyrwyddo mabwysiadu datblygiad cynaliadwy. Mae'r ymddiriedolaeth yn cael 100% o'i chyllid gan breimymau a grëir gan yswiriant Naturesave.

Caiff grantiau eu i brosiectau yn y DU yn unig. Y prif feysydd cyllid yw: -

- **Prosiectau Amgylcheddol a Chadwraeth** – Gweithio gyda chymunedau a sefydliadau i warchod bywyd gwylt a gwella bioamrywiaeth
- **Prosiectau menter gymdeithasol** – Gweithio gydag elusennau a sefydliadau gwirfoddol i roi cymorth i grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau dan anfantais
- **Grantiau ynni adnewyddadwy cymunedol** – Darparu grantiau hadau corn cychwynnol i brosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol
- **Adolygiadau o berfformiad amgylcheddol** – Mae'r ymddiriedolaeth hefyd yn cyllido adolygiadau annibynnol i gwsmeriaid masnachol yswiriant Naturesave.

Sir Benfro – Cronfa Gymunedol South Hook LNG

Sefydlwyd Cronfa Gymunedol South Hook LNG yn 2015 mewn partneriaeth interreg â Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir

Benfro (PAVS) i gynnig cymorth ariannol â chostau prosiectau cymunedol, mentrau a chyfleoedd gwirfoddoli ledled Sir Benfro.

Dyddiadau cau 2019 fydd 17 Mai, 19 Gorffennaf a 18 Hydref.

tan 2043

- Mae dwy rownd ymgeisio bob blwyddyn, bydd un yn cau yn Chwefror ac un yn Awst.

Rhaglenni Cymunedol a gefnogir gan chwaraewyr Ymddiriedolaeth Cod Post y Bobl

- Mae'r Ymddiriedolaeth Leol Cod Post yn cefnogi gwella manau gwyrdd, gwella mynediad pobl i'r awyr agored, ynni adnewyddadwy ac atal llifogydd
- Mae'r Ymddiriedolaeth Gymunedol Cod Post yn canolbwyntio ar wella iechyd a llesiant pobl, y celfyddydau a hamdden gorfforol a lleihau unigrwydd.

Caiff ymgeiswyr wneud cais am grantiau rhwng £500 a £20,000 ond gallant ond wneud cais am dros £2,000 os ydynt yn elusen gofrestrdig.

Sefydliad Elusennol Polden Puckham

Mae'n ariannu sefydliadau yn y DU sy'n gweithio ar ddylanwadu ar bolisiau, agweddau a gwerthoedd ar lefel genedlaethol neu ryngwladol, gan gynnwys gwaith sy'n cyfeirio at y pwysau a'r amgylchiadau sy'n cyfrannu at fethiant amgylcheddol byd-eang.

Cronfa Gymunedol Porthladd Aberdaugleddau

Y dyddiad cau yw'r 25^{ain} o bob mis.

Ymddiriedolaeth Arddwriaethol Stanley Smith

i hybu amaethiad a dosbarthiad eang o blanhigion sy'n werthfawr i ddynolryw

Grantiau Bags of Help Tesco

Bydd cwsmeriaid mewn archfarchnadoedd Tesco ledled Cymru'n pleidleisio ar dri phrosiect cymunedol ym mhob ardal leol a bydd y prosiectau'n newid bob yn ail fis.

Yn dilyn y bleidlais, bydd y prosiect sydd wedi cael y mwyaf o bleidleisiau yn ei ardal yn cael grant gwerth hyd at £4,000, bydd yr ail fwyaf yn cael hyd at £2,000 a'r trydydd yn cael hyd at £1,000. Rhoddir tocyn i'r cwsmeriaid pan fyddant yn prynu eu siopa fel bod modd iddynt ei ddefnyddio i ddewis fel y mynnant gan ddefnyddio'r unedau pleidleisio yn yr archfarchnad.

Track 2000 - Cronfa Etifeddiaeth Grant Gwasanaethau Adnoddau

Cymunedol Os ydych yn elusen gofrestrdig, grŵp gwirfoddol cymunedol neu fenter gymdeithasol ac arnoch angen cymorth hanfodol ar ffurf grant, gall Track 2000 eich helpu i gyflawni nodau ac amcanion eich sefydliad wrth wneud gwelliannau amgylcheddol, addysg hyfforddi ar gyfer pawb a chryfhau cymunedau sydd o dan anfantais. Mae grantiau rhwng £5,000 a £35,000 ar gael i elusennau bach yn ne Cymru ar gyfer costau referniw a chyfalaf.

Community Matters Waitrose

Mae cynllun Community Matters yn galluogi cwsmeriaid i fwrw pleidlais â'u tocyn gwyrdd a chaiff cyfran o £1,000 (neu £500 mewn siopau cyfleuster) ei rhannu rhwng tri achos lleol yn gymesur â phleidlais y cwsmeriaid.

Croesewir ceisiadau gan elusennau cenedlaethol ar gyfer y cynllun ar lein hwn a bydd angen eu postio. Gall elusennau lleol wneud cais am gymorth hefyd mewn archfarchnadoedd unigol.

Sefydliad Waterloo

Mae dau ddyddiad cau ar gyfer Cronfa'r Fforest Law Drofannol ac un dyddiad cau ar gyfer y Gronfa Forol bob blwyddyn.

Cyllid Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru a Chyllid Ewropeaidd

Cynhwysiant Gweithredol

Bydd y rownd gyllido nesaf yn cael ei chynnig i'n 'buddiolwyr cymeradwy' yn Ebrill 2019.

Horizon 2020

gan gynnwys cynllun grantiau **SCoRE Cymru**

Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

<https://www.wcva.org.uk/funding/landfill-disposals-tax-communities-scheme> - Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yw olynydd y Gronfa Cymunedau Tirlenwi (CCT) yng Nghymru. Bydd prosiectau yn parhau i elwa ar unrhyw gymorth CCT a wobrwyyd cyn 31 Mawrth 2018. Mae cyfnod trosiannol o ddwy flynedd (1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2020) i alluogi prosiectau'r CCT yng Nghymru i gael eu cwblhau ac i'r holl CCT sy'n weddill yng Nghymru gael ei wario. Bydd y cynllun newydd yn cefnogi prosiectau cymunedol ac amgylcheddol lleol o unrhyw sector sy'n gweithredu o fewn radiws pum milltir i orsafoedd trin a throsglwyddo gwastraff penodol neu safleoedd tirlenwi. Mae grantiau rhwng £5,000 a £49,999 ar gael. **Bydd rownd gyllido arall ddiwedd Ebrill 2019 ac un arall yn yr hydref.** Gweler mwy o fanylion ar wefan WCVA [yma](https://www.wcva.org.uk/funding/landfill-disposals-tax-communities-scheme) <https://www.wcva.org.uk/funding/landfill-disposals-tax-communities-scheme> neu drwy e-bostio LDTgrants@wcva.org.uk <mailto:LDTgrants@wcva.org.uk>

Cyfleuster Ariannol Cyfalaf Naturiol (NCFF)

Er mwyn atal colli bioamrywiaeth ac addasu i newid yn yr hinsawdd, mae angen mwy o fuddsoddi mewn cyfalaf naturiol. I wneud hynny, mae Banc Buddsoddi Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd wedi dod ynghyd i greu'r Cyfleuster Ariannol Cyfalaf Naturiol (NCFF), sef teclyn ariannol sy'n cefnogi prosiectau sy'n cyflawni ym meysydd **bioamrywiaeth** ac **addasu i'r hinsawdd** trwy fenthyciadau a buddsoddiadau pwrpasol gyda gwarant gan yr UE. Ar yr un pryd, mae angen i brosiectau a gyllidir trwy'r NCFF greu referniw neu ddangos eu bod yn arbed costau.

Galw am brosiectau: Mae'r NCFF wedi cael ei ymestyn ac rydym bellach yn derbyn cynigion ar gyfer prosiectau tan ddiwedd 2021!

Oes gennych brosiect sy'n cyfrannu at hybu bioamrywiaeth y DU neu'n defnyddio datrysiad seiliedig ar natur i addasu i newid yn yr hinsawdd? Ydych chi'n chwilio am arian? Os felly, hoffem glywed gennych! Anfonwch y [ffurflen gysylltu](#) atom gyda manylion eich prosiect at NCF_Instrument@eib.org.

Sir Benfro - Grant Bach Gwyrdd

Gweler y wefan am fanylion y dyddiadau cau.

Cymunedau Gwledig – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020
bron £830 miliwn

Cronfa Datblygu Cynaliadwy - Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae £200,000 wedi cael ei neilltuo i'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a'i bwriad yw cefnogi prosiectau a fydd yn hybu datblygu cynaliadwy a gwella ansawdd bywyd cymunedau yn y parc. Nid yw ceisiadau am gyllid i barhau â phrosiectau presennol neu i barhau â gwasanaethau lle mae gwasanaethau cyhoeddus wedi'u trosglwyddo yn gymwys am y cymorth hwn. Fel arfer, mae'r grantiau'n llai na £10,000 a gallant dalu hyd at 50% o gostau'r prosiect.

'AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy - Cynllun grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy

<<http://www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/the-sustainable-development-fund/>>

Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy'n darparu grantiau ar gyfer prosiectau amgylcheddol arloesol, cynaliadwy sy'n cynnwys cymunedau lleol yn yr AHNE. Mae'r gronfa'n cynnig grantiau prosiect...

AHNE Gŵyr - Cynllun Grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy Caiff grantiau (gwerth hyd at £25,000) eu hasesu gan banel o bobl leol, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r cynllun yn ceisio cadw a gwella nodweddion diwylliant, bywyd gwylt, tirwedd, defnydd tir a chymuned yn AHNE Gŵyr.

Cysylltwch â Mike Scott, Swyddog AHNE (mike.scott2@swansea.gov.uk) ar gyfer manylion y cynllun grantiau.

AHNE Llŷn - Cynllun Grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy'n darparu cymorth grantiau ar gyfer prosiectau amgylcheddol, economaidd a chymunedol arloesol sy'n darparu ac sy'n arbrofi â ffyrdd newydd o gyflawni ffordd fwy cynaliadwy o fyw yn yr AHNE.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Cynllun Grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Mae'r gronfa ar agor i sefydliadau, gan gynnwys grwpiau cymunedol, yn ogystal ag unigolion a busnesau.

AHNE Dyffryn Gwy - Cynllun Grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Llywodraeth Cymru – Cynllun Grant Cymru o Blaid Affrica

Bydd y cynllun yn galluogi grwpiau cymunedol a sefydliadau ledled Cymru i gael mynediad i gyllid ar gyfer prosiectau Cymru-Affrica. **Bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu dan bedwar maes thematig: iechyd, bywoliaethau cynaliadwy, dysgu gydol oes, a newid hinsawdd a'r amgylchedd.** Bydd y rownd gyllido ar gyfer grantiau gwerth rhwng £5,000 a £15,000 yn cael ei chyhoeddi'n fuan. Gweler mwy o fanylion ar wefan WCVA [yma](#) neu drwy e-bostio walesafricagrants@wcva.org.uk

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: Gwobrau i Gymru gyfan

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: Pawb a'i Le

Caiff y cyllid ei rannu'n ddau faes, grantiau canolig (£10,001 to £100,000) a grantiau mawr (£100,001 to £500,000).

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: Rhaglen Wledig (rownd dau)

Mae'r Rhaglen Wledig (rownd dau) ar gyfer prosiectau a fydd yn creu effaith gadarnhaol ar fywydau pobl a chymunedau sy'n byw mewn tlogdi yn y Gymru wledig. Bydd y rhaglen hon yn cyllido partneriaethau sy'n deall y cysylltiad rhwng achosion ac effeithiau tlogdi ac yn cynnig datrysiadau a gwasanaethau sy'n defnyddio dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â'r broblem wrth ei chraidd.

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Ddechrau mis Chwefror, bydd yn cyhoeddi Fframwaith Cyllido Strategol newydd ar gyfer 2019-2024 ac yn agor ei phortffolio cyllido newydd. Bydd hyn yn cynnwys grantiau gwerth hyd at £5 miliwn, gyda phrosesau a gofynion cymesur ar wahanol lefelau o grantiau.

B&Q

Mae B&Q yn gweithio hefyd gyda Community Repaint, rhwydwaith o gynlluniau sy'n casglu unrhyw baent sy'n weddill y gellir ei aildddefnyddio a'i ailddosbarthu o fewn ei gymunedau i unigolion a theuluoedd ar incwm isel, elusennau a grwpiau cymunedol.

Cronfa Busnes Gwyrdd yr Ymddiriedolaeth Garbon

Gall sefydliadau bach a chanolig elwa ar gymorth a chyngor wedi'u cyllido'n llawn i arbed arian ar eu biliau ynni a defnyddio ynni'n fwy effeithlon. Mae cannoedd o sefydliadau eisoes wedi sicrhau arbedion sylweddol o ran ynni a chostau trwy'r cyngor, hyfforddiant a chymorth gan yr Ymddiriedolaeth Garbon. Bydd arbenigwyr yr Ymddiriedolaeth Garbon yn darparu asesiadau ynni i nodi cyfleoedd i arbed ynni heb gost ar fusnesau ac yn helpu i ganfod cyflenwyr dibynadwy ar gyfer prosiectau. Gall sefydliadau hefyd elwa ar gymorth a hyfforddiant am ddim ar effeithlonrwydd ynni yng ngweithdai'r Gronfa Busnes Gwyrdd, a gynhelir ledled y wlad, ac ar ffurf gweminarau, canllawiau ac adnoddau ar-lein. Gweler y wefan am fanylion gweithdai a gweminarau am ddim sydd ar ddod ac i gofrestru ar gyfer asesiad a chyngor ar ynni.

Yr Ymddiriedolaeth Garbon - Cronfa Benthyciadau Effeithlonrwydd Ynni

Mae Cronfa Benthyciadau Effeithlonrwydd Ynni yr Ymddiriedolaeth Garbon yn cynnig cyllid ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy ar gyfer sefydliadau yng Nghymru. Gall cwmnïau fenthyca rhwng £3,000 a £200,000 heb log a heb warant, heb unrhyw ffioedd sefydlu na gweinyddu. Caiff y benthyciadau eu strwythuro fel y dylai'r arbedion ynni misol fod yn uwch na'r swm i'w ad-dalu bob mis yn y rhan fwyaf o achosion. Gwiriwch eich cymhwysedd neu ewch i gael gwybod mwy ar dudalen we'r Gronfa Benthyciadau Effeithlonrwydd Ynni. Mae benthyciadau ar gael ar gyfer amrywiaeth o brosiectau arbed ynni, gan gynnwys gwresogi, oeri, goleuo a phaneli ffotofoltäig solar, ymysg lluo o bethau eraill. Dim ond 15 munud y mae'n ei gymryd i wneud cais ac os byddwch yn llwyddiannus, bydd cais yn cael ei brosesu o fewn 10 diwrnod gwaith.

Coed Cymru

Ein nodau yw gwella tirweddau Cymru sy'n cynnwys coetiroedd a choed. Mae ein staff yn darparu cyngor a chymorth, mynediad i arloesedd a chymorth grantiau. Cysylltwch â ni am wybodaeth a chymorth o ran unrhyw agwedd ar greu coetiroedd, rheolaeth a phren.

Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Sefydliadau Gwirfoddol

Mae gwefan KnowHowNonProfit y Cyngor Cenedlaethol yn darparu amrywiaeth eang o ganllawiau ar gyllid a chreu incwm gan gynnwys grantiau, codi arian mewn

ffordd ddigidol, comisiynu diwylliannol, masnachu a siopau a buddsoddiad cymdeithasol.

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yw enw newydd y sefydliad a grëwyd yn dilyn uno Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol a Care Farming UK yn Ebrill 2018. Mae amrywiaeth eang o wybodaeth a chyngor ar-lein ynglŷn â dechrau a datblygu prosiectau ffermio neu arddio, gan gynnwys ffermydd a gerddi cymunedol, ffermydd ysgol, gerddi bywyd gwyllt a gerddi to, perllannau cymunedol, rhandiroedd cymunedol a chynlluniau amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned. .

Gwasanaeth Cyngori ar Dir Cymunedol yng Nghymru

Bwriad CLAS Cymru yw galluogi pobl leol i gael mynediad i lefydd gwyrdd yn eu hardal, bod yn berchen arnynt a'u gwella.

Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi mynediad am ddim i grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol a thirfeddianwyr i gymorth a chyngor ar faterion fel canfod tir, prydlesau a chaniatâd cynllunio.

WCVA - Pecyn cymorth gwirfoddoli amgylcheddol

Coed Cadw – Pecynnau Plannu Coed Am Ddim

Mae gan yr ymddiriedolaeth lu o becynnau plannu coed am ddim i weddu i ysgolion, grwpiau ieuenctid a chymunedau ac mae'n cyflenwi'r rhain ddwywaith y flwyddyn, ym mis Mawrth ac ym mis Tachwedd.